**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1566
Ein cyf HIDCC/02081/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

27 Tachwedd 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Tachwedd ynghylch Deiseb P-06-1566 ar Warchodfeydd Natur Lleol (LNR), gan gynnwys LNR Cosmeston.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae LNRs yn ei chwarae wrth gefnogi bioamrywiaeth a darparu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â natur. Dynodiadau gan awdurdodau lleol yw LNRs o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn bennaf am eu rheoli a'u diogelu.

Mae gan y system gynllunio gyfrifoldeb allweddol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth. Mae Polisi Cynllunio Cymru 12 (PCC) yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac mae'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae PCC yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer diogelu dynodiadau natur nad ydynt yn statudol, megis Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Mae'r polisi cynllunio yn nodi ym mharagraff 6.4.31: "Er nad oes proses statudol i warchod dynodiadau anstatudol, yn wahanol i ddynodiadau statudol, mae Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn gwneud cyfraniad hanfodol at sicrhau rhwydwaith ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth a dylai cynlluniau datblygu a'r broses rheoli datblygu eu hamddiffyn. Weithiau safleoedd anstatudol yw craidd rhwydwaith hanfodol o gynefinoedd dan fygythiad ac maent yn gallu chwarae rhan hollbwysig i ddiogelu, cynnal, cysylltu ac adfer bioamrywiaeth a chyfrannu at adfer natur a manteision net i fioamrywiaeth. Cyn awdurdodi datblygiad sy'n debygol o ddifrodi dynodiad natur lleol, dylai awdurdodau cynllunio roi hysbysiad o'r bwriad i gynnal y gwaith i Ecolegydd yr awdurdod lleol neu i fudiad amgylcheddol y trydydd sector. Ym mhob achos rhaid cael barn ysgrifenedig ecolegydd yr awdurdod lleol."

Rydym yn disgwyl i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gennym eisoes ddyletswydd bioamrywiaeth adran 6 gyda'i nod cyffredinol o integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth i swyddogaethau awdurdodau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau drwy eu swyddogaethau a'u gweithgareddau.

Hefyd, bydd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn cryfhau'r fframwaith ar gyfer adfer bioamrywiaeth ledled Cymru. Bydd y Bil hefyd yn helpu i wella'r dull o weithredu dyletswydd bioamrywiaeth adran 6 drwy gyflwyno targedau rhwymol yn gyfreithiol a threfniadau llywodraethu. Er nad yw'r Bil yn creu dyletswyddau newydd sy'n benodol i LNRs, bydd ei ddarpariaethau yn atgyfnerthu'r gofyniad i gyrff cyhoeddus ystyried bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a phrosesau cynllunio. Mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn ddarn hollbwysig o ddeddfwriaeth a fydd yn ein grymuso i ddiogelu ein hamgylchedd ac i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Gymru.

Bydd sefydlu Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol Cymru (OEGW) yn darparu llwybr ar gyfer cwynion a gorfodi pan fo awdurdodau cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

Diolch am ysgrifennu ataf ar ran y Pwyllgor Deisebau ar y mater pwysig hwn. Gobeithio y byddwch yn gweld yr ymateb hwn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig